# Pa mor effeithlon mae'r llu ynghylch cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

## Trosolwg

Dyfernir bod Heddlu De Cymru yn effeithlon wrth gadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd. Mae ein dyfarniad cyffredinol eleni yr un fath â'r llynedd. Dyfernir bod gan yr heddlu ddealltwriaeth dda o alw; asesir bod ei ddefnydd o adnoddau i reoli galw yn dda; a dyfernir bod ei waith o gynllunio ar gyfer galw yn y dyfodol hefyd yn dda.

Mae Heddlu De Cymru wedi parhau i adeiladu ar ei ddealltwriaeth gref o'r galw am ei wasanaethau. Mae'r ddealltwriaeth hon wrth wraidd y ffordd y mae'n gweithredu, sut mae'n cynllunio ac yn gweithio gyda sefydliadau eraill i nodi, rhagfynegi a mynd i'r afael â galw, a sut mae'n defnyddio ei adnoddau i fodloni galw. Mae Heddlu De Cymru wedi datblygu trefniadau cydweithio cryf gyda heddluoedd eraill, y sector preifat a chymunedau lleol i ymdrin â galw yn fwy effeithlon. Mae'n cynllunio'n weithredol ar gyfer sut y bydd yn gweithio yn y dyfodol, gan gymryd i ystyriaeth boddhad y cyhoedd yn rhan o'r cynlluniau hyn.

Mae gan yr heddlu systemau ar waith i ddeall gallu ei weithlu a'r bylchau a geir ynddo, gan ei alluogi i gyfeirio ei adnoddau i fodloni galw presennol yn y rhan fwyaf o achosion, ac er mwyn galluogi defnydd a chynllunio mwy hirdymor ar gyfer ei adnoddau. Mae ganddo ddealltwriaeth dda o sgiliau gweithredol ei swyddogion a'i staff, ond dealltwriaeth gyfyngedig o'i sgiliau arwain. Ar adeg ein harolwg, roedd gormod o alwadau wedi'u gadael gan y cyhoedd i'r heddlu bob mis. Mae'r heddlu'n ymwybodol bod y newidiadau diweddar i wella ei wasanaeth wedi effeithio ar y cydbwysedd rhwng y galw am ddelio â galwadau nad ydynt yn rhai brys a nifer y bobl sy'n delio â'r galwadau yn ei ystafell reoli. Mae wedi cymryd rhai camau i fynd i'r afael â hyn yn y tymor canolig drwy dechnoleg; nawr mae angen ystyried cyflwyno mesurau i fynd i'r afael â nifer y galwadau wedi'u gadael, er mwyn darparu'r gwasanaeth safonol  a ddisgwylir gan y cyhoedd. O ganlyniad, mae prif swyddogion wedi comisiynu adolygiad cynhwysfawr o'r galw ar y ganolfan gwasanaeth cyhoeddus i geisio ffyrdd o fynd i'r afael â galw yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf sy'n fwy effeithlon a chynnig dulliau cyswllt eraill, wrth barhau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i'r cyhoedd.

Dylai cynlluniau buddsoddi arwain at fwy o effeithlonrwydd a chyflawni gwelliannau i'r gwaith o ddarparu ei wasanaethau. Er bod yr heddlu'n gallu cyflawni'r arbedion cost a gafwyd drwy gydweithio, ar y cyfan nid yw'n gallu dangos buddiannau eraill o

ganlyniad i gydweithio, nac ychwaith esbonio pam ei fod yn dewis gweithio gyda sefydliadau penodol ac nid rhai eraill. Er bod yr heddlu'n dangos bwlch ar hyn o bryd yn ei gyllideb o 2017/18 ymlaen, mae ganddo nifer o gynlluniau wrth gefn ar waith, megis cynyddu praesept y dreth gyngor, a dylai'r cynlluniau wrth gefn hyn ddarparu ar gyfer unrhyw ddiffyg.